
Pris: 50c

# Papur Pawb

Ebrill 2023 Rhif 488




tud 3 Pobl a Phethe
tud 5 Gêm newydd
tud 10 Ceffylyddiaeth
tud 12 Cofio Ron

# Arafu llif y traffig

**Mewn ymateb i lythyr gan Ben Lake AS yn codi pryderon ynghylch cynlluniau i ddiogelu cerddwyr ar briffordd yn A487 trwy bentrefi gogledd Ceredigion, dywedodd y Dirprwy Weinidog Dros Newid Hinsawdd sydd â gofal am drafnidiaeth, Lee Waters, y bydd cyflymder o 20 milltir yr awr yn dod i rym yn barhaol yn Nhal-y-bont a Thaliesin ar 17 Medi eleni.**




Er bod Ben Lake a'r cyngor cymuned lleol wedi gofyn am groesfan ger Ysgol Tal-y-bont, dywedodd yr Is-Weinidog nad oedd yr arolwg a gynhaliwyd gan yr Asiantaeth Priffyrdd yn dangos bod achos digon cryf dros gael un. Gan nad oedd digon o bobl yn croesi'r ffordd ac nad oedd maint llif y traffig ar hyd y ffordd yn cwrdd â meini prawf yr Asiantaeth Priffyrdd, ni fydd croesfan yn cael ei gosod.

Mynegwyd siom gan rai cynghorwyr lleol a llywodraethwyr Ysgol Tal-y-bont am fod diogelwch plant a'u rhieni yn croesi yn achos pryder, ond mae'n fwriad cyflogi person lolipop unwaith y bydd yr Asiantaeth Priffyrdd wedi cael arian i wneud rhywfaint o waith addasu ar yr A487 y tu allan i'r ysgol.

Roedd cyhoeddiad Lee Waters yn cyd-fynd â rhyddhau canlyniad wyth cynllun treialu ledled Cymru. Dangosodd yr adroddiad oedd yn trafod y gwaith treialu fod gostwng cyflymder i 20 m.y.a. mewn ardaloedd trefol wedi arwain at lefelau uwch o gerdded diogel a chyn lleied â phosibl o effaith ar amseroedd teithio. Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod mwy o blant wedi bod yn cerdded, beicio neu fynd ar sgwter i'r ysgol mewn ardaloedd lle cafodd 20 m.y.a. ei gyflwyno.

Barn Llywodraeth Cymru yw fod arafu cyflymder traffig ar ffyrdd lle mae pobol yn byw ac yn gweithio yn gallu arwain at lawer llai o wrthdrawiadau ac anafiadau difrifol, gan helpu i wneud cymunedau'n fwy diogel.

Fel ymateb i'r cyhoeddiad, dywed y Cyngorydd Sir lleol, Catrin M. S. Davies: "Mae'n newyddion da bod y cyflymder teithio cyfreithlon yn mynd i gael ei ostwng yn Nhal-y-bont a Thaliesin. Mae galw mawr wedi bod am hynny ers blynyddoedd, yn enwedig o flaen yr ysgol yn Nhal-y-bont ac ar y mannau hynny lle nad oes palmant call.

Yn anffodus, nid yw'r Cyngor Sir o dan arweiniad Llywodraeth Cymru ond yn edrych ar y funud ar ostwng mewn ardaloedd sy'n 30 m.y.a. sydd yn siom mawr i drigolion Ffwrnais, Eglwys-fach a Glandyfi. Mae trigolion yr ardal wedi ymgyrchu'n galed ers degawdau i gael gostyngiad o 40 i 30 m.y.a. drwy'r pentrefi hynny. Y mae rhai o drigolion Bont-goch hefyd yn galw am ostwng cyflymder gan ei bod yn bosib teithio 60 m.y.a. drwy'r pentre ar y funud. Y gobaith yw bod y Llywodraeth yn mynd i ystyried cyfyngiadau cyflymder pellach eleni a bydd modd inni alw eto iddyn nhw ystyried Ffwrnais, Eglwys-fach, Glandyfi, ac o bosib Bont-goch.

Mae'r ymgynghoriad cyhoeddus ar newid cyflymder y traffig mewn ardaloedd sy'n 30 m.y.a. yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ac mi fydden i'n annog pawb sydd â barn ar y mater i'w leisio drwy fynd i wefan y Cyngor neu mae'n bosibl gweld y dogfennau yn y Llyfrgelloedd gan gynnwys Llyfrgell Aberystwyth."

# Bardd Cadeiriol Eisteddfod Ysgol Tal-y-bont.



Gwelwch hanes a lluniau'r Eisteddfod ar dudalennau 8 a 9.

## Papur Pawb

**Golygydd Cyffredinol:**
Gwyn Jenkins
**(01970) 832560**
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
**golygydd@papurpawb.com**

**Tynnu lluniau:**
Cysyllter â golygyddion y mis

**GOHEBYDDION LLEOL**

**Tal-y-bont:**
Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
**832592**

**Parsel Henllys:**
Rhys Huws, Llwyn Onn
**832076**

**Bont-goch:**
Cathryn Lloyd-Williams
**cat_yfoel@hotmail.com**

**Llangynfelyn:**
Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin
**832573**

**Eglwys-fach/Ffwrnais:**
Non Griffiths
**(01654) 781264**

**Rhwydweithiau cymdeithasol:**
Ceri Morgan

**CYMDEITHAS PAPUR PAWB**

**Cadeirydd:**
Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont
**832697**

**Is-gadeirydd:**
Lisa Tomos, Awelon, Pentrebach
**832773**

**Ysgrifennydd:**
Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
**832344**

**Trysorydd:**
Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont
**832093**

**Tanysgrifiadau:**
Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
**832448**

**Hysbysebion:**
Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont

**Dylunio:**
Iolo ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

**Plygu'r Papur:**
Gwenllïan Parry-Jones; Beti Jenkins

**Dosbarthwyr:**
Lynn Ebenezer; Gwenllïan Parry-Jones; Carys Briddon, John Evans

*Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.*

am yr holl wybodaeth am Bapur Pawb ewch at ein gwefan…
**www.papurpawb.cymru**
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)


## GOLYGYDDION

Golygwyd y rhifyn hwn gan Delyth a Bleddyn gyda Iolo'n dylunio.
Diolch iddynt.

Phil a Megan (gwynionydd@btinternet.com) fydd yn golygu rhifyn Mai.
Y dyddiad cau yw 5 Mai a bydd y papur ar werth ar 14 Mai.

# Gohebiaeth

PENCAMPWRIAETH AREDIG CYMRU
**BWYDYDD CASTELL HOWELL FOODS**
9 Medi 2023
MORFA MAWR, LLAN-NON, CEREDIGION

Annwyl Gyfeillion,
Mae **Pencampwriaeth Aredig Cymru** yn cael ei chynnal yng Ngheredigion ar y 9fed o Fedi 2023 ar gaeau Fferm Morfa Mawr, Llan-non, Ceredigion trwy garedigrwydd Prifysgol Aberystwyth. Mae pwyllgor lleol wedi cael ei sefydlu i drefnu'r digwyddiad ac rydym ers rhyw flwyddyn a hanner wedi bod yn trefnu digwyddiadau i geisio codi arian i gynnal y digwyddiad hwn sydd o bwys i Geredigion. Rydym hefyd wedi bod mewn cyswllt â busnesau lleol i noddi'r digwyddiad ond fel yr ydych yn ymwybodol, mae'n amser ariannol anodd iawn ac rydym yn gweld y her o godi arian i gynnal y digwyddiad yn enfawr. Felly, y rheswm am y llythyr hwn yw i ofyn i'r sawl sydd am gynnig unrhyw gefnogaeth ariannol wneud hynny drwy gysylltu â'r ysgrifenyddion. Os hoffech fwy o fanylion am y digwyddiad, cysylltwch drwy e-bost.
Diolch am eich amser.

Yn gywir,
Mags Jones.

**Ysgrifenyddion Lleol**:
Margaret S. Jones, 10 Bro Hawen, Rhydlewis, Llandysul, Ceredigion, SA44 5RF
magsbrohawen@hotmail.co.uk (01239) 851451
a
Phyllis Harries, Meillionen, Llanddeiniol, Llanrhystud, Ceredigion, SY23 5AW
meillionen@outlook.com (01974) 202308

**CYWIRIAD**

Yn yr erthygl **Cwrdd 'To** a ymddangosodd yn rhifyn Mawrth, drwy gamgymeriad, rhoddwyd enw Lisa Tomos ar waelod y stori. Nid Lisa oedd yr awdur ac ymddiheurwn iddi am yr amryfusedd.

## Sesiwn Nos Wener

Geraint Davies oedd yn diddanu yn y Llew Gwyn yn Nhal-y-bont ar nos Wener olaf mis Mawrth, a'r cerddor Geraint Cynan wrth yr allweddellau. Er nad oedd cymaint o gynulleidfa yno ag oedd y tro cynt yng nghwmni Cleif Harpwood, y peth braf yw fod noson o adloniant Cymraeg byw ar gael i'w fwynhau yn lleol. Ac mae cyfres o nosweithiau'r Sesiwn wedi eu trefnu o hyn tan y Nadolig: Ar 26 Mai bydd Geraint Lovgreen yn diddanu; Bwca ar 23 Mehefin; Gai Toms ar 29 Medi; Delwyn Siôn ar 27 Hydref a Neil Rosser ar 24 Tachwedd.




# DYDDIADUR

**EBRILL**

16 **Bethel** 10 Uno â Seion, Eirian Wyn Lewis
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwys-fach** 9.30
17 **Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch** 1.30 'Gweilch Dyfi' (Alwyn Ifans)
19 **Taith gerdded** 2–3 Cletwr
**Caligraffeg** 6–8.30 Cletwr
20 **Eglwys Llangynfelyn yn Llan-fach** 7 Hwyrol Weddi
22 **'Hwyl gyda llythrennau'** (Tanja Bolenz) 3–4.30 Cletwr
23 **Bethel** 10 Geraint Evans
**Rehoboth** 11.15 Gweinidog
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwys-fach** 9.30
30 **Bethel** 10 Uno â Seion, Gwilym Tudur
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwys-fach** 9.30

**MAI**

4 **Prosiect Cinio Syria** 6.30–8.30 Cletwr
6 **'Côr y Wig gyda'r Wawr'** 6yb–8.30yb Ynyshir (£15)
7 **Rehoboth** 11.15 Gweinidog
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwys-fach** 9.30
**Parti Barbeciw** 2 Ystafell Haearn, Eglwysfach
**Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion** 10 a 5.30 Capel Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth
12 **Sinfonia Cymru (Cyngerdd am ddim)** 7–8 Cletwr
13 **Parti Dathlu'r Deg a Barbeciw** 3–9 Cletwr
14 **Bethel** 10 Gwilym Tudur (C)
**Capel Bethesda Tynant** 2 Geraint Evans
**Eglwys Llangynfelyn yn Llan-fach** 2.15 Cymun Bendigaid

**BOB WYTHNOS**

**Cletwr** Dydd Llun 2.30–4.30 'Pwyth a Chlonc'
**Cletwr** Dydd Mawrth 1–4 'Clonc a Gweu'

Cofiwch anfon manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o'r papur.

**Cynhelir cyfarfod cyhoeddus blynyddol Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr am 7 o'r gloch nos Lun 22 Mai 2023 yn Neuadd Goffa Tal-y-bont. Croeso cynnes i bawb.**

### Cydymdeimlo

Trist oedd clywed am farw Ron Roberts, Hafoty, Tal-y-bont, yn 79 oed, neu 'Ron y Peintar' i lawer a oedd yn ei adnabod. Cydymdeimlwn â'i weddw, Linda, ac â'r meibion Kevin a Derek a'u teuluoedd.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â Monica Lloyd-Williams, Tŷ-newydd, Bont-goch, a'r teulu i gyd ar farwolaeth ei Mam, Betty Loyn, Waunfawr.

### Pen-blwyddi arbennig

Pen-blwydd hapus iawn i Lisa Davies, Llety Ifan-hen, Bont-goch, sydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 80 mlwydd oed.

Pob dymuniad da i Serian Evans, Bont-goch, a fu'n dathlu ei phen-blwydd yn 30 mlwydd oed ar 8 Ebrill.

Pen-blwydd hapus i Rhys Huws, Llwyn Onn, Pentre-bach a fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig iawn yn Ebrill. Mae'n debyg ei fod eisoes i'w weld yn gwibio o gwmpas yr ardal ar ei anrheg pen-blwydd cynnar - sef beic trydan!

Llongyfarchiadau hefyd i Eryl Bray, Tir Na-Nog, Tal-y-bont, ar ddathlu pen-blwydd arbennig.

### Priodas Aur

Llongyfarchiadau i Geraint ac Eirian Evans, Garnwen, Tal-y-bont a fydd yn dathlu eu Priodas Aur yn ystod mis Ebrill. Mwynhewch y dathlu.

### Wyres fach

Llongyfarchiadau i Ruth a Peter Dennis, 8 Maes-y-felin, Tal-y-bont, ar enedigaeth eu hwyres fach gyntaf, Lena. Pob dymuniad da i'r teulu bach.

### Cwtsh Cynnes Eglwys-fach

Cyhoeddwyd bod y sesiwn croeso cynnes yn yr Ystafell Haearn fel rhan o'r cynllun i sicrhau canolfannau cynnes dros fisoedd y gaeaf wedi dod i ben ar 4 Ebrill. Ni fydd y cwtsh yn agored dros fisoedd yr haf, ond y gobaith yw y bydd modd ailddechrau eto pan fydd y tywydd yn oeri yn yr hydref. Mae'r trefnwyr yn gobeithio bod y cyfarfodydd wedi bod o les ac yn gyfrwng i godi hwyliau pobl mewn cyfnod digon heriol i rai.

# Pobl a Phethe

### Un bore Sadwrn gwlyb ym mis Mawrth



Aelodau Sefydliad y Merched yn mwynhau paned

Roedd hi'n braf cael bod yn rhan o waith codi sbwriel Sefydliad y Merched, Eglwys-fach. Mi gerddodd yr aelodau a chasglu sbwriel o ben draw wal fawr Glandyfi at arosfan bws Ffwrnais a chodi pob un darn o sbwriel oedd wedi ei daflu'n ddifeddwl i'r clawdd a'r ffordd. Mae'n waith mae'r gangen yn ei wneud yn rheolaidd a mae'n braf cydnabod eu gwaith a diolch iddyn nhw am edrych ar ôl ein hardal. Roedd hi'n rhy ddiflas i dynnu llun o godi sbwriel yn y glaw felly dyma lun o'r baned hyfryd a gafwyd ar ôl gorffen y gwaith.

Catrin M. S. Davies

### Lansio Clwb Cant i gefnogi Llan-fach



Aelodau pwyllgor Llan-fach yn lansio'r Clwb Cant.

I ddathlu dydd Gŵyl Dewi, daeth nifer o drigolion Llangynfelyn at ei gilydd yn Llan-fach, Taliesin, ar fore Sadwrn, Mawrth 4ydd.

Ers rhai misoedd bellach, mae aelodau pwyllgor Llan-fach a gwirfoddolwyr wedi bod wrthi'n brysur yn adnewyddu'r tu mewn a'r tu allan i'r adeilad. Cafodd pawb gyfle i gymdeithasu dros baned a chacen a gweld y newidiadau a'r gwelliannau sydd wedi eu gwneud erbyn hyn.

Mae aelodau'r pwyllgor yn awyddus i dynnu sylw a hysbysu darllenwyr *Papur Pawb* bod ganddyn nhw bellach Glwb 100 ar gyfer cefnogi Llan-fach.

Bydd 35% o'r arian yn cael ei roi fel gwobrau tra bydd 65% yn mynd tuag at gostau cynnal a chadw Llan-fach. Am fwy o fanylion cysylltwch â Wyn Griffiths, Ysgrifennydd Pwyllgor Llan-fach, ffôn: 01970 832446.

### Eglwys St. Pedr, Elerch

Trist iawn yw cofnodi marwolaeth Y Parchg John P. Livingstone ar 21 Mawrth a fu'n ficer Elerch am ddegawd. Roedd yn fugail gofalus ac yn ffrind da i nifer. Ganwyd John yn West Hartlepool, Swydd Durham yn 1951, ac addysgwyd yng Ngholeg y Brifysgol, Aberystwyth gan raddio'n BA yn 1972, a chymhwyso'n athro y 1973. Ar ôl cyfnod yn dysgu yn Hwlffordd, fe'i hordeiniwyd fel diacon yn 1996, gan weithredu fel curad di-dâl ym mhlwyfi Castellhenri (Henry's Moat), Llangolman, Llys-y-frân, Maenclochog, Y Mot (New Moat) a Mynachlog-ddu. Apwyntiwyd ef yn ficer Elerch, Penrhyn-coch a Chapel Bangor yn 2002, a bu ef a'i briod Kathryn yn byw yn Y Ficerdy, Penrhyn-coch. Ymddeolodd John yn Chwefror 2012 gan ddychwelyd i fyw i Lys-y-frân, Sir Benfro. Estynnwn ein cydymdeimlad dyfnaf â Kathryn a'r teulu yn eu colled. Cynhaliwyd ei angladd yn Eglwys Sant Meilyr, Llys-y-frân, ar 1 Ebrill. Coffa da amdano.

*RH*

### Doniau llenyddol

Da oedd clywed fod Carys Briddon, Tre'r Ddôl, wedi wedi ennill cadair yn Eisteddfod Llanfihangel-ar-arth yn ddiweddar a chwpan am lunio ysgrif yn Eisteddfod Cymdeithas Ceredigion a oedd yn cael ei chynnal yr un noson. Mae Carys yn enillydd cyson mewn eisteddfodau ar hyd a lled Cymru.

### Newyddion Glandyfi

Yn ystod y mis diwethaf collwyd pedwar aelod blaenllaw o'r gymuned, sef Peter a Sheila Latham, Fferm y Garreg, yn drist iawn a fu farw o fewn pythefnos i'w gilydd. Hefyd, cafwyd siom o glywed am farwolaeth Marie Roe-Barnett, Coed y Garreg. Siom fawr oedd clywed am ymadawiad Stewart Neil Llwyncelyn, Eglwys-fach. Bu'r pedwar yn weithgar iawn yn yr ardal, yn enwedig yn Eglwys Sant Mihangel, ac er eu bod wedi cyrraedd oedran teg, yr un yw yr hiraeth a'r golled. Cydymdeimlwn yn fawr gyda'u teuluoedd a'u ffrindiau.

# Clwb Hen Beiriannau Gogledd Ceredigion



Aelodau'r Clwb Hen Beiriannau ar noson y sefydlu.

**Ar nos Fercher 8fed o Fawrth daeth tua deugain o bobl at ei gilydd i'r Llew Gwyn yn Nhal-y-bont gyda'r bwriad o sefydlu clwb i'r rhai sydd â diddordeb mewn hen beiriannau ac ati. Mae sawl un ohonynt yn berchen ar bethau sy'n amrywio o injian stêm i hen foduron; pethau amaethyddol neu ddiwydiannol yn bennaf.**

Peter Watkin, Blaenwaun (Peter Henllys i'r cyfarwydd) a gafodd y syniad o ddechrau clwb yng ngogledd Ceredigion. Nid oedd clwb o'r fath yn bodoli yn yr ardal hon. Bethan, gwraig Peter, gadwodd gofnodion y cyfarfod. Mae Chris Fryd, Ty'n Ffynnon, wedi cytuno i ofalu am yr ochr ariannol i bethau gyda Rowland Davies, Dolcletwr, yn cynorthwyo.

Mae'r mwyafrif a ddaeth i'r cyfarfod yn hanu o ogledd y sir. Daeth un cwpl o Lanbrynmair. Roedd un neu ddau wedi bwriadu dod o waelod y sir ond gan fod eira'n bygwth, penderfynon beidio teithio.

Mae llawer o fanylion i'w trafod, ond y syniad yw cyfarfod unwaith bob mis o fis Medi tan y gwanwyn gyda digwyddiadau awyr agored dros yr haf. Gobeithir medru cefnogi sioeau lleol gan hefyd helpu achosion teilwng.

Diweddwyd y noson trwy wylio DVD yn olrhain prosiect o adnewyddu hen beiriant stêm fu'n gweithio mewn chwarel yng ngogledd Lloegr (fersiwn cyntefig o Jac-codi-baw, ond tua deg gwaith y maint!). Roedd wedi bod dan ddŵr am flynyddoedd.

Diolch i Arvid Parry Jones am fentro allan ar noswaith aeafol i dynnu llun y tu allan i'r Llew Gwyn o dan amgylchiadau oedd ymhell o fod yn berffaith. Diolch hefyd i Gareth am ein croesawu ac am gael defnyddio'r ystafell.

Gobeithir medru adrodd am y cyfarfod nesaf ac am unrhyw ddatblygiadau yn *Papur Pawb*.

John Evans


Garej Davmor

Petrol a Diesel • Gwasanaethau, trwsio, MOT, a theiars
Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
Brechdanau poeth ac oer • Siop Gyfleustra drwyddedig
Y gareg gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont






Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553





Salon Leri
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674


## Goleuadau traffig tan ddiwedd yr haf

**Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd Sir, Catrin M.S. Davies, daeth cadarnhad gan Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru fod cam cyntaf y gwaith wedi dechrau ger Tanffordd lle mae'r goleuadau traffig yn Nhal-y-bont. Mae rhan o'r wal a oedd yn simsan wedi ei dymchwel ac mae arolwg gan gontractiwr arbenigol yn cael ei gynnal i weld beth yw'r ffordd orau o godi wal gryfach ble mae'r tir wedi rhoi.**

Yn anffodus, mae'r gwaith ar yr ail gam yn mynd i gymryd cryn amser am fod angen gwneud asesiad risg ac asesiad ecolegol cyn penderfynu pa fath o farier diogelwch sydd ei angen i rwystro cerbydau rhag bwrw'r tŷ. Bydd rhaid ymgynghori â chwmnïau trydan, nwy a dŵr hefyd cyn bwrw ymlaen â'r gwaith yn y rhan hon o bentref Tal-y-bont. Mae'n anorfod y bydd tipyn o oedi cyn gallu cwblhau'r gwaith. Fe gymer rai misoedd eto, a bydd y goleuadau traffig yn eu lle tan ddiwedd yr haf.

## CYMDEITHAS Y CHWIORYDD, REHOBOTH



Gillian Olewicz a chreiriau o Saudi Arabia.

Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod yn festri Rehoboth ar brynhawn Mawrth, 14 Mawrth. Gillian Olewicz, Llandre oedd y wraig wadd, a theitl ei sgwrs oedd 'Byw a Gweithio yn y Dwyrain Canol'. Bu Gillian a'r teulu yn byw yn Saudi Arabia yn y Dwyrain Canol am bedair blynedd ar ddeg, o 1979 hyd 1995, gan fyw yn Jeddah a Riyadh. Yn ystod y prynhawn cawsom hanes eu bywyd prysur yn y wlad honno, ynghyd â gweld lluniau a ffilmiau a dynnwyd gan y teulu pan oeddent yn byw yno. Hefyd daeth â nifer o greiriau a brynwyd ganddi yn y Dwyrain Canol i'w dangos, ynghyd â mat sidan hyfryd, a'r cyfan yn ei hatgoffa am yr amser a dreuliodd yn y wlad. Ar ôl iddi ateb nifer o gwestiynau a ofynnwyd iddi gan y chwiorydd, diolchwyd yn gynnes i Gillian am brynhawn difyr, a mwynhawyd paned o de a bisgedi a baratowyd gan Ann Humphreys a Ruth Jenkins.

## CLWB FFERMWYR IFANC TAL-Y-BONT A'R CYLCH

### Hanner Awr o Adloniant

**Roedd Neuadd Goffa Tal-ybont o dan ei sang nos Fawrth, 7 Mawrth, pan lwyfannwyd tair sioe arbennig o ddyfeisgar a doniol gan Glybiau Ffermwyr Ifanc Lledrod, Bro Ddyfi a Thal-y-bont. Yr hyn a gafwyd oedd perfformiadau'r tri chlwb o'u sioeau hanner awr o adloniant yng nghystadleuaeth genedlaethol y mudiad ar y Sul cynt. Teitl sioe Clwb Tal-y-bont oedd 'Yr Arolwg', sef hanes arolwg Ysgol Uwchradd Tal-y-bont. Roedd cryn dipyn o ymdrech wedi mynd i gynhyrchu sioe slic lle'r oedd cyfuniad deniadol o sgript ffraeth, set gredadwy a thalentau actio a chanu. Un o'r uchafbwyntiau oedd golygfa dawns y nofwyr a'i choroeograffi gofiadwy.**



Aelodau o gast sioe hanner awr o adloniant CFfI Tal-y-bont.

Rhywbeth arall trawiadol oedd yr ymdrech a fu i gynllunio'r gwisgoedd. Yr oedd y cast yn amlwg wedi mwynhau'r profiad ac yn gwerthfawrogi'r cymorth amhrisiadwy a gafwyd gyda sawl agwedd ar y perfformiad gan eu hyfforddwyr, Elen Pen-cwm, Mair Nutting, a Sion Pennant.

Cafodd y gynulleidfa wledd o noson a diolch i aelodau'r tri chlwb am yr adloniant. Fe welwyd faint o gyfoeth o dalentau ifanc sydd yng nghefn gwlad.

## Tair Elusen yn Elwa



O'r chwith i'r dde: Sara Jenkins, Ysgrifennydd y Clwb, Bedwyr Siencyn, Cadeirydd y Clwb, Eifiona Evans, Sefydliad DPJ, a Gwyn Jenkins, y Banc Bwyd.

**Mae tair elusen eleni wedi elwa ar gasgliad blynyddol canu carolau Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont a'r cylch. Cyhoeddwyd bod cyfanswm o £1965 wedi ei gasglu a bod yr arian i'w rannu'n gyfartal rhwng Ambiwlans Awyr Cymru, Sefydliad DPJ a'r Banc Bwyd lleol.**

Er nad oedd neb yn gallu bod yn bresennol ar ran yr Ambiwlans Awyr, Cyflwynodd Bedwyr Siencyn, Cadeirydd y Clwb, a Sara Jenkins yr Ysgrifennydd, sieciau i Eifiona Evans fel cynrychiolydd Sefydliad DPJ ac i Gwyn Jenkins fel cynrychiolydd y Banc Bwyd. Wrth dderbyn y siec rhoddodd Eifiona rywfaint o gefndir i waith pwysig Sefydliad DPJ sy'n cynnig cefnogaeth i'r rheini o fewn y gymuned amaethyddol sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl. Yn ystod ei chwe blynedd o fodolaeth, mae'r elusen wedi darparu cymorth cwnsela proffesiynol i fwy na 700 o bobl hyd yma trwy ei wasanaeth 'Rhannwch y Baich'. Esboniodd Eifiona ei bod yn costio tua £300 i gefnogi un person trwy gyfrwng y gwasanaeth hwn, ac ychwanegodd:

"Rydym hefyd yn cynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth iechyd meddwl sydd am ddim, ac yn ddiweddar rydym wedi cyflwyno sesiynau ymwybyddiaeth o brofedigaeth a galar sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Ceir mwy o wybodaeth am y sesiynau hyn ar ein gwefan, *https://www.thedpjfoundation.co.uk/cy/home-cymraeg/*. Hoffwn ddiolch i chi fel clwb am ddewis ein cefnogi. Bydd eich rhodd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r sefydliad ac yn ein galluogi i barhau i gefnogi pobl yn y sector amaethyddol yng Nghymru sydd ag iechyd meddwl gwael."

Esboniodd Gwyn Jenkins fod y Banc Bwyd wedi'i leoli yn Eglwys y Santes Anne, Penparcau, a'i fod yn gwasanaethu ardal eang o'r sir – o Ysguborycoed yn y gogledd draw i Bonterwyd yn y dwyrain, ac i lawr i'r de i ardal Llanrhystud. Mae tua 150 o bobl yn derbyn pecynnau bwyd bob wythnos ac mae'r galw yn cynyddu. Cynyddodd y nifer o becynnau a ddosbarthwyd 43% yn 2021–2022 ac mae'n sicr o godi eto eleni.

Ychwanegodd Gwyn:

"Mae'r Banc Bwyd lleol yn gwerthfawrogi'n fawr y cyfraniad hael hwn gan Glwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont. Fe ddwedodd Dewi Sant wrthym: "Gwnewch y pethau bychain", ac os ydych yn siopa yn Cletwr, Nisa Borth, Tesco neu Morrisons, a wnewch chi ystyried prynu un eitem ychwanegol o fwyd i'w rhoi yn y blwch sydd wedi'i osod ger y til? Byddai hynny'n cael ei werthfawrogi'n fawr gan y rhai llai ffodus yn y gymuned."

# Gêm fwrdd newydd yn llwyddiant




**Mae'r Lolfa wedi rhyddhau gêm fwrdd newydd Gymraeg sy'n ail-fyw gwrthryfel Owain Glyndŵr. Mae bwrdd y gêm wedi ei seilio ar fap o Gymru'r cyfnod ac yn cynnwys lleoliadau'r cestyll a'r brwydrau. Mae'r holl ddarnau a'r cardiau wedi eu creu yn bwrpasol i roi naws ac ymdeimlad cryf o'r Oesoedd Canol ac i gynnig profiad i'r rhai sy'n chwarae. Dyma'r gêm fwrdd Gymraeg wreiddiol gyntaf i gael ei chyhoeddi ers blynyddoedd maith ac yn ôl Y Lolfa bydd yn llenwi bwlch mawr mewn maes sy'n tyfu'n gyflym.** Dywedodd Garmon Gruffudd o'r wasg,

"Mae yna alw mawr yn fyd-eang am gemau bwrdd fel adwaith yn erbyn yr oes ddigidol a dibyniaeth plant a phobl ifanc ar sgriniau. Er bod yna ambell i addasiad o gemau bwrdd Saesneg wedi cael eu cyhoeddi yn Gymraeg yn lled ddiweddar dwi'n credu taw hon yw'r gêm fwrdd wreiddiol gyntaf yn Gymraeg i oedolion ers Gêm y Steddfod a gyhoeddwyd bron i hanner canrif yn ôl."

Gobaith y Lolfa yw y bydd y gêm yn cael ei harchebu gan gyplau, teuluoedd, ysgolion yn ogystal â dysgwyr y Gymraeg. Lansiwyd y gêm ar 1 Mawrth eleni ac mae'r 500 cyntaf a grewyd wedi gwerthu allan. Mae'r Lolfa'n gobeithio y bydd 500 arall ar gael i'w prynu yn fuan. Pris y gêm yw £25.

## Trafod Problemau Carthffosiaeth Tal-y-bont

**Mewn cyfarfod cyhoeddus a drefnwyd yn ddiweddar gan y Cynghorydd Sir, Catrin M.S. Davies, yng nghwmni aelodau o Gyngor Cymuned Ceulanamaesmawr ac aelodau o'r cyhoedd, cyhoeddodd Mr Richard Davies, Rheolwr Carthffosiaeth Dŵr Cymru, nad oes dim cynllun buddsoddi ar gyfer uwchraddio system garthffosiaeth Tal-y-bont ar hyn o bryd.**




Lorri GEWS yn delio â charthffosiaeth yn Stryd Pant-y-calch

Trefnwyd y cyfarfod yn dilyn sawl achos yn ystod y misoedd diwethaf o bibellau carthffosiaeth yn torri a phan arllwysodd carthffosiaeth i mewn i dai yng ngwaelod pentref Tal-y-bont. Dywedodd Mr Davies fod y system, a adeiladwyd yn 1971, yn gwasanaethu tua 600 o aelwydydd. Fe'i cynlluniwyd i gymryd dŵr budr o gartrefi yn unig, ond mae glaw a dŵr sy'n llifo oddi ar y tir yn mynd iddi hefyd ac yn ei gorlwytho. Dywedodd hefyd fod yr orsaf bwmpio ar waelod y pentref yn gweithio'n dda ar y cyfan, ac eithrio mewn tywydd eithriadol, ond bod sgriniau yn eu lle i atal unrhyw fater solet rhag mynd i'r afon pan fydd y system yn gorlifo. Cadarnhaodd i'r pibellau gael eu glanhau yn dilyn y llifogydd yn 2012, a bod yr orsaf bellach yn pwmpio hyd eithaf ei chapasiti.

Mae gan Dŵr Cymru hawl i ollwng dŵr budr i afon Leri pan fydd y system yn methu ag ymdopi â maint y dŵr pan fydd glaw mawr a chyson. Nododd Mr Davies mai'r brif risg yw fod carthffosiaeth amrwd yn llifo i afon Leri. Does dim carthion amrwd yn mynd i'r afon fel arfer dim ond carthffosiaeth wedi ei thrin a'i gwanhau. Dangosodd luniau o'r mathau o bethau sy'n gallu blocio pibellau a pheri iddynt orlifo, a phwysleisiodd pa mor bwysig yw sicrhau mai dim ond tri pheth sy'n mynd i lawr unrhyw doiled, sef y 3P – pi-pi, pŵ, a phapur!

Esboniodd fod cylch cyllido pum mlynedd ar waith, a bod Dŵr Cymru yn cadw golwg arno gan ei ddiweddaru yn ôl yr angen. Pan ofynnwyd i Mr Davies ble mae Dŵr Cymru arni yn y cylch pum mlynedd, beth yw safle Tal-y-bont arno a sut y gall gyrraedd brig y rhestr, dywedodd fod y cynllun cyllido presennol yn ei bedwaredd flwyddyn a chadarnhaodd nad oes cynllun buddsoddi ar gyfer uwchraddio system Tal-y-bont ar hyn o bryd. Pe bai pobl yn rhoi gwybod am bob achos unigol lle mae problem â'r system yn y pentref, yna byddai hynny'n cryfhau'r achos. Byddai Dŵr Cymru wedyn yn gallu ystyried yr angen a phenderfynu a ddylid cynnwys y pentref yn y cylch buddsoddi nesaf.

Nododd fod angen buddsoddiad sylweddol i wella'r system. Yn y cyfamser, mae yna system ar waith i ysgogi larwm pan fydd lefel y garthffosiaeth yn codi'n uchel, ac felly bydd peirianwyr yn gallu lliniaru'r broblem cyn iddi effeithio ar gwsmeriaid. Fodd bynnag, mae atal llifogydd mewn cartrefi yn flaenoriaeth, ac mae falfiau unffordd wedi cael eu gosod mewn sawl eiddo i atal dŵr budr rhag llifo yn ôl i dai. Dywedodd y byddai peiriannydd yn dod allan yn syth i ymdrin ag unrhyw achosion o ôl-lifo i mewn i bibellau yn y tai, ac ati. Rhoddodd rif ffôn 24 awr ar gyfer achosion brys yn ymwneud â charthffosiaeth yn unig – **0800 085 3968**.

Ddechrau'r mis hwn roedd llygredd carthffosiaeth yn y newyddion pan gyhoeddodd Dŵr Cymru fod 83,000 o achosion o ollwng gwastraff trwy bibellau carthion i afonydd, llynnoedd a'r môr wedi bod yng Nghymru yn ystod 2022. Roedd hynny yn ganlyniad i fwy o dywydd gwlyb yn sgil newid hinsawdd, meddai Dŵr Cymru. Poeni y mae llawer fod llygredd o'r fath yn peryglu iechyd y cyhoedd, a chan fod angen buddsoddiad sylweddol i ateb y broblem, mae biliau dŵr pawb yng Nghymru wedi codi eleni.







# Rhaglen '*Countryfile*'



Iolo Davies yn y canol yn dangos i'r cyflwynydd Joe Crowley sut i ddal a thrin alpaca.

**Mewn eitem ar raglen 'Countryfile' ar y BBC nos Sul 26 Mawrth gwelwyd Iolo Davies, Dolcletwr, Tre'r Ddôl, yn dangos i'r cyflwynydd Joe Crowley sut oedd trin alpaca. Mae Iolo, sy'n Rheolwr Maes ar fferm ymchwil Prifysgol Aberystwyth ym Mhwllpeiran yng Ngwm Ystwyth, yn gyfrifol am fugeilio'r ddiadell o alpacas sy'n cael ei defnyddio fel rhan o waith ymchwil i reoli crawcwellt y mynydd.**

Cawsom ddysgu fod yr anifail, a ddaw'n wreiddiol o Dde America, yn hoff o bori'r crawcwell sy'n tyfu yn yr ucheldiroedd. *Molinia cærulea* yw'r enw Lladin arno, ac ni fydd defaid yn ei gyffwrdd oni bai eu bod ar lwgu. Dyna pam ei fod yn tyfu'n dwmpathau lympiog ac yn mygu'r mwsogl sy'n creu'r mawndir, sydd yn ei dro yn storio carbon. Gan fod ffermydd yr ucheldir yn wynebu dyfodol ansicr yn sgil y newidiadau i daliadau amaethyddol yn dilyn gadael y gymuned Ewropeaidd, a chystadleuaeth o gyfeiriad Seland Newydd ac Awstralia yn sgil y cytundeb masnach newydd gan Lywodraeth Prydain, mae'n bosibl y gwelwn fwy o ffermwyr yn cadw rhywfaint o alpacas ar fynyddoedd Ceredigion yn y dyfodol.

## Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

**Crynodeb o faterion dau fis**
Ddiwedd mis Chwefror, cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus i drafod mater y llygredd carthffosiaeth yn yr afonydd a'r llifogydd yn y pentref. Roedd y Cyng. Catrin M. S. Davies wedi trefnu i Swyddog Carthffosiaeth Dŵr Cymru, Richard Davies, ddod i roi cyflwyniad ar y system garthffosiaeth leol ac ateb nifer o gwestiynau. Cafwyd addewid bod Dŵr Cymru yn cadw llygad barcud ar y sefyllfa, ond prin iawn oedd yr atebion cadarnhaol fel arall.

Yn dilyn y sesiwn hon, cynhaliwyd cyfarfod misol y Cyngor, lle trafodwyd nifer o faterion perthnasol, gan gynnwys y goleuadau ger Tanffordd. Er bod y gwaith wedi dechrau bydd yn rhaid i ni fyw gyda'r goleuadau am sawl mis eto nes i Asiantaeth y Priffyrdd sicrhau bod y ffordd yn ddiogel.

Mae'r sesiynau Croeso Cynnes wedi symud o ddydd Mercher i fore Mawrth ac yn llwyddiannus iawn, gyda dros ddwsin o bobl yn mynd iddynt. Byddwn yn gofyn unwaith eto am i arwydd y Fferyllfa gael ei ddiffodd pan nad yw'r siop yn agored gan fod y golau llachar yn tarfu ar y cymdogion. Mae'r golau sydd wedi torri ar y ffordd y tu ôl i'r Llew Du wedi'i gofnodi, a bydd rhywun yn dod i'w drwsio yn fuan – gobeithio.

Mae gwahaddod wedi ymgartrefu yng nghae chwarae Bont-goch, ond mae'r offer yn dal i fod yn ddiogel – bydd sbring yn cael ei osod ar y gât i wneud yn siŵr ei bod yn cau'n iawn. Cyn cyfarfod mis Mawrth, aeth grŵp o'r Cynghorwyr i gwrdd â chynrychiolwyr o gwmni *Adventure Playground Wales* yn y Cae Bach yn Nhal-y-bont i drafod y ffordd orau o'i ddiweddaru. Y cam cyntaf fydd datrys problem y dŵr, ond cafwyd syniad o'r hyn sy'n bosibl o ran llawr ac offer newydd, ac o'r costau. Bydd rhaid mynd ati'n ddyfal i godi arian, a'r gobaith yw llunio gweithgor, yn cynnwys Cynghorwyr a thrigolion eraill, i drefnu hyn.

Roedd yna gyffro mawr yng nghyfarfod mis Mawrth wrth i ni gysylltu â'r sgrin ryngweithiol sydd wedi cael ei gosod yn y neuadd. Bydd hon yn hwyluso cyfarfodydd hybrid ac yn galluogi'r Cyngor i edrych ar ddogfennau a gwefannau perthnasol heb orfod gwneud gormod o argraffu ymlaen llaw. Prif ffocws y cyfarfod hwn oedd yr Adroddiad Adran 6, a luniwyd gan Nia Richards ac Eryl Bray, sy'n nodi cyfrifoldeb y Cyngor i ddiogelu'r amgylchedd. Bydd y Cyngor yn hapus i helpu unigolion a sefydliadau lleol i gyflawni prosiectau i hybu bioamrywiaeth. Y gobaith yw cynnull grŵp o drigolion i fynd ati i dacluso'r pentrefi a phlannu blodau gwyllt er mwyn harddu'r lle ac annog bioamrywiaeth.

Ar yr un trywydd, cytunodd y Cyngor i gynorthwyo Grŵp Llifogydd Tal-y-bont i brynu cyfarpar i fonitro ansawdd y dŵr yn afonydd Leri a Ceulan. Byddwn yn gwahodd cynrychiolwyr o'r grŵp i drafod hyn, ynghyd â materion perthnasol eraill, yng nghyfarfod mis Ebrill.

**Lynwen Rees Jones, Clerc y Cyngor: Ceulanamaesmawr@gmx.com**






## Technoleg newydd Neuadd Goffa

**Mewn cyfarfod diweddar o bwyllgor Rheoli Neuadd Goffa Tal-y-bont cafodd yr aelodau gyfle i weld yr offer newydd sydd wedi ei osod yn yr ystafell bwyllgor yn y cefn dros dro fel y gall cymdeithasau wneud defnydd o'r offer darlledu a fideogynadledda byw. Pan fydd y gwaith o ailaddurno'r neuadd waelod wedi ei gwblhau ymhen rhai wythnosau, bydd y cyfarpar yn cael ei symud yno yn barhaol.**


Aelodau o bwyllgor Rheoli'r Neuadd Goffa yn eu gweld eu hunain ar sgrin yr offer fidoegynadledda newydd.

Llwyddodd y pwyllgor i sicrhau grant o rai miloedd o bunnoedd gan Gyngor Sir Ceredigion trwy'r cynllun *Leader* a *Chynnal y Cardi* i gael technoleg band llydan er mwyn i bobl allu cysylltu â'r We yn ddi-wifr ym mhob rhan o'r Neuadd. Gan fod disgwyl i Gyngor Cymuned Ceulanamaesmawr allu cynnal cyfarfodydd hybrid o hyn ymlaen, mae'r Cyngor wedi cytuno i gyfrannu at gost fisol y band llydan. Bydd cael y dechnoleg hon o werth mawr i'r gymuned am y bydd modd i'r cymdeithasau sy'n defnyddio'r neuadd yn rheolaidd ddefnyddio'r offer i gynnal cyfarfodydd hybrid yn ôl y galw a defnyddio'r We. Bydd modd i aelodau'r cyhoedd hefyd logi'r ystafell er mwyn mynychu cyfarfodydd o bell.

Cafodd y Pwyllgor Rheoli gymorth gan Ian Jones o Dŷ Morlais, Tal-y-bont, wrth fynd ati i gael band llydan a sefydlu'r We, ac maent yn wirioneddol ddiolchgar iddo am ei gyngor gwerthfawr.











Côr yr Ysgol



Côr Leri



Eisteddfod



Eisteddfod

# Ysgol

**Eisteddfod yr Urdd**

Ar ddechrau mis Mawrth cynhaliwyd Eisteddfod yr Urdd yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth ac roedd hi'n hyfryd gweld cymaint o Ysgol Tal-y-bont ar y llwyfan eleni. Da iawn Martha, Ariana, Tomos a Rowan am eu perfformiad gwych yn y gystadleuaeth 'Perfformiad Theatrig' a da iawn i'r côr am berfformiad bywiog a graenus dan arweiniad Miss Roberts. Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i Mrs Falyri Jenkins a Siôn Pennant am bob cymorth wrth baratoi'r plant ar gyfer y cystadlaethau.

**Eisteddfod yr Ysgol**

Credwch neu beidio, ond dyma'r tro cyntaf i ni gynnal Eisteddfod yr Ysgol ers Ebrill 2019 oherwydd cyfyngiadau'r cyfnod clo! Ond, roedd hi'n werth yr aros. Daeth llond y lle i'r Neuadd Goffa i'n cefnogi ac rydym yn hynod ddiolchgar i bawb am eu cefnogaeth eleni eto.

Wedi diwrnod llawn o hwyl a chystadlu brwd, Leri aeth â hi eleni – da iawn chi. Llongyfarchiadau mawr i Cadi, Mostyn, Delilah, Rowan, Edith, Teal ac Alaw am ennill gwobrau unigol a chlod mawr i Tomos am ennill cystadleuaeth y Gadair eleni gyda'i gerdd hyfryd.

Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd at ddiwrnod llwyddiannus gan gynnwys Capteiniaid y tai, Swyn a Joel (Ceulan) a Lela a Rowan (Leri). Diolch i'r beirniaid Llinos Bonsall, Steffan Rees a Helen Jones am eu gwaith arbennig, i'r Prifardd Gwenallt Llwyd Ifan am y gadair a'r gleddyf ac i Mr Morgan a Phwyllgor y Neuadd Goffa am eu cymorth wrth i ni baratoi at y diwrnod. Diolch arbennig hefyd i aelodau gweithgar y Gymdeithas Rieni am baratoi'r Neuadd ac am drefnu'r lluniaeth ac i Mrs Falyri Jenkins am gyfeilio i'r plant. Diolch o galon i'r staff am eu hymroddiad i'r ysgol ac am hyfforddi'r plant.

**Ysgol Iach**

Yn ystod pythefnos olaf y mis buom yn cymryd rhan yng nghynllun Strolio a Rolio 2023. Dyma'r her flynyddol i annog pawb i feicio, cerdded a sgwtera i'r ysgol. Ar bob diwrnod o'r her roedd ysgolion yn cystadlu i weld pwy allai gofnodi'r nifer fwyaf o ddisgyblion, staff a rhieni oedd yn beicio, cerdded a sgwtera i'r ysgol. Mae hyn yn ffordd wych i gael mwy o'n disgyblion i deithio'n iach i'r ysgol ac mae'n ffordd syml o hybu ein hiechyd corfforol a'n hiechyd meddwl. Diolch i Mrs Rhys am drefnu.

Cafwyd rhai ymdrechion arwrol gan y disgyblion eleni eto gan gynnwys Ben yn seiclo 6 milltir bob dydd, Charlie'n cerdded yn ôl ac ymlaen o Dre Taliesin a Rosie, Maia ac Ariana'n seiclo o Fachynlleth i Dal-y-bont i godi arian i bobl Twrci a Syria ar ôl y daeargryn erchyll.

Mae'r arfer o roi benthyg sgwter am waith da wedi parhau yn ystod y misoedd diwethaf hefyd.

Mae Ray Ceredigion wedi parhau i ymweld yn ystod y mis ac rydym wedi cael llawer o hwyl yn eu cwmni. Diolch yn fawr i'r staff am hybu'r gweithgareddau mewn ffordd hwyliog.

Mae BMO wedi parhau i gynnal sesiynau i'r plant ar ôl ysgol hefyd. Diolch i Bryn am gynnal y gweithgareddau hwyliog.

**Ysgol y Gymuned**

Trefnwyd dau drip arbennig yn ystod y tymor, un i'r plant hynaf ac un i'r plant ieuengaf.

Aeth plant y Dysgu Sylfaen am drip i ffatri fêl Wainwrights ym Maesnewydd. Dyma gyfle gwych i gadarnhau ein hymrwymiad i gynllun Caru Gwenyn ac i ddysgu sut mae mêl yn cyrraedd ein siopau. Diolch yn fawr am y croeso ac am y cyfle i flasu'r mêl hyfryd.

# Tal-y-bont

I Archifdy Ceredigion yn Aberystwyth yr aeth plant Blwyddyn 6 a hynny am ddau reswm. Y cyntaf oedd trosglwyddo eu podlediadau gwych ar hanes efaciwis yn yr Ail Ryfel Byd i'r Archifdy fel eu bod ar gael i'r cyhoedd eu clywed. A'r ail reswm oedd mynd i atgyfnerthu ein gwybodaeth am y diwydiant plwm yn lleol. Roedd hi'n agoriad llygad gweld y manylder yn yr hen fapiau o'r mwynfeydd yn ardal Tal-y-bont.

**Diwrnod Trwynau Coch**

I gyd-fynd â'r diwrnod hwn eleni, penderfynodd y Cyngor Ysgol godi arian mewn ffordd unigryw, sef casglu ceiniogau a chreu trwyn enfawr ar yr iard. Diolch yn fawr am bob ymdrech i gefnogi'r plant ac am gasglu cymaint o arian ar gyfer yr elusen bwysig yma – £65 eleni.

**Ffair Wyddoniaeth**

Mae plant Ysgol Tal-y-bont yn hoff iawn o ymweld â'r Ffair Wyddoniaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth bob blwyddyn. Mae'n ffordd ymarferol a hwyliog o ddysgu am wahanol agweddau o wyddoniaeth. Roedd hi'n hwyl crwydro o gwmpas y stondinau a chyflawni'r heriau gwahanol. Diolch yn fawr i staff y Brifysgol am drefnu'r digwyddiad ac am y croeso.



Ffair Wyddoniaeth



Ymweliad â'r Archifdy



Rholio a strolio




Dwlu ar ddarllen

argraffu
lleol a rhesymol

y Lolfa
Talybont Ceredigion SY24 5HE
01970 832 304 /www.ylolfa.com
Holwch Paul am bris: paul@ylolfa.com

## Printiau Ruth Jên Evans




Y print a luniwyd gan Ruth Jên.

**Fel cyfraniad i Apêl DEC i gynorthwyo'r bobl a ddioddefodd yn sgil y daeargryn yn Nhwrci a Syria, lluniodd yr artist lleol, Ruth Jên Evans, brint arbennig 'Gwnewch y Pethau Bychain'. Gwerthwyd y rhan fwyaf ohonyn nhw yn noson Hwyl Ddewi Tal-y-bont ddiwedd Chwefror trwy gydweithrediad y trefnwyr. Gwerthwyd y gweddill i bobl o bob cwr o Gymru a chodwyd y swm anhygoel o £1385. Oherwydd cyfraniadau trwy'r cynllun Rhodd Cymorth, bydd DEC yn gallu hawlio £346.25 yn ychwanegol, nes gwneud y cyfanswm terfynol yn werth £1731.25.**

# CEFFYLYDDIAETH




Llun Ziggy, asyn Claire Evans Watkin a enillodd gystadleuaeth flynyddol y National Equine Forum. Cafodd llun Claire ganmoliaeth fawr gan y beirniad proffesiynol. Dywedodd bod y camera, yn y cyswllt yma, ffôn Claire ei hun, yn edrych ar i fyny sy'n golygu bod llygaid Ziggy yn edrych i fyw y lens. Ychwanegodd bod y cymylau a'r goeden siâp gwahanol yn wych fel cefndir a'r lliwiau amrywiol yn cyfrannu at lun campus. Cyfrannwyd 47 llun o 40 gwlad o dros y byd, Norwy, UDA, Cananda a'r DU ac eraill i'r gystadleuaeth. Er bod y gynhadledd yn bodoli ers 1992 dyma'r tro cyntaf i lun asyn gael ei anrhydeddu ar glawr y llawlyfr. Dyna glod mawr iawn i Claire.

Tybed a oes un arall o ddarllenwyr *Papur Pawb* wedi ennill cystadleuaeth ryngwladol? Mae'n bosib bod, ond daeth enwogrwydd i Claire Evans Watkin, gynt o Heulfor, Pentre-bach, Tal-y-bont, pan enillodd gystadleuaeth gyda'r llun rhagorol o'i hasyn Ziggy. Cyfarfod blynyddol y National Equine Forum yn Llundain i drafod materion teulu'r ceffyl yw'r achlysur, cyfle i drafod ceffylyddiaeth yn gyffredinol a chyfle i roddi llun arbennig o geffyl neu asyn ar flaen eu llawlyfr cynhwysfawr. Noddir y diwrnod gan gwmnïau sydd â stondinau amrywiol a chan fudiadau perthnasol fel yr RSPCA, Cymdeithas y Milfeddygon, Ymddiriedolaeth y Ceffyl ayyb. Y llywydd yw'r Dywysoges Anne ac, o bosib am nad oedd hi wedi mynychu'r gynhadledd, collodd Claire y cyfle i gwrdd â'r dywysoges ac ysgwyd ei llaw! Ond gwell gan Claire oedd y wobr o naill ai tocyn i'r gynhadledd (dim diolch) neu focs o siocled arbennig iawn gwerth £75 (diolch yn fawr!).

Ers i ni adrodd am Claire a'i hasynnod sawl blwyddyn yn ôl, mae hi wedi prynu trelar i fynd hwnt ac yma i gystadlu mewn sioeau. Daeth yn gyntaf ac yn ail yn sioe Tyddyn a Chefn Gwlad yn Llanelwedd fis Mai y llynedd ac felly hefyd yn Sioe Aberhonddu. Does dim cystadleuaeth debyg yn y Sioe Fawr ym mis Gorffennaf ac nid ar chwarae bach mae mynychu sioe beth bynnag: rhaid bod yr asyn wedi ei sbaddu, wedi ei frechu a bod ganddo basport. Cyn mynd i'r sioe rhaid rhoi bàth i'r asyn a'i gadw dan do dros nos er mwyn ei gribo'n drylwyr. Mae'n rhaid i Claire ei hun wneud ffws hefyd a gwisgo'n gywir. Basil yw'r unig asyn sy'n gallu trotian, felly ef yw'r unig un i fentro i mewn i'r cylch arddangos er bod y lleill – Caspar, Buddy a Stone – yn eu tro yn cael mynychu sioeau. Roedd yr asynnod wedi eu henwi'n barod cyn eu prynu, ond mae Claire wedi rhoi'r enw Doyle i'r un a ddaeth yn lleol gan Bill Doyle.

Anifail tiriogaethol yw'r asyn, felly mae caeau Pant-y-dwn yn saff. Bydd nadu uchel i'w glywed pan fydd anifail dieithr yn mentro i gae'r asyn. Tybed a oes angen asyn arnoch chi yn yr ardd gefn i gadw'r anifeiliaid sy'n dwyn cynnyrch eich gardd liw nos?

Er mai 'Ceffylyddiaeth' yw'r teitl uwchben yr erthygl hon, yr asyn sydd wedi cael sylw yn gyntaf. Daeth yn bryd inni nawr drafod ceffylau. Mae Eleri Jenkins (Marshalsay gynt), gwraig Geraint a mam i Tomi Jac o Gerrigcaranau Uchaf, yn un sydd wedi ymddiddori mewn ceffylau ers pan oedd yn ifanc iawn. Gwena wrth gofio i'w mam yrru o Palmon, Llanddeiniol, bob pnawn Mercher a gorfod gwau ei char a threlar rhwng ceir rhieni eraill oedd yn aros ar y lôn gul tu allan i Ysgol Mefennydd, Llanrhystud. Y bwriad oedd mynd â hi, yn bump oed, gyda'i chwaer iau Nia, i gael gwersi marchogaeth ym Methania. Yn y gwersi, magodd hyder a sgiliau a chafodd flas ar gystadlu, elfen sydd wedi aros gyda hi hyd heddiw. Aeth i Benweddig gan gystadlu ymhellach o gartre erbyn hyn. Yn wir roedd rhaid teithio ar draws Cymru a Lloegr i sioeau a gyda'i cheffyl ei hun. Yn ystod y cyfnod hwn aeth i Wlad Belg i gystadlu; roedd y 'marchog' oedd i fod i gystadlu wedi cael anaf, roedd ei geffyl eisoes dramor a gofynnwyd i Eleri fynd i gystadlu yn ei le ar ei geffyl ef.

I Brifysgol De Cymru, Trefforest, Pontypridd, yr aeth hi i wneud ei gradd a chael swyddi dysgu mewn nifer o ysgolion. Teimlai ar un adeg mai cyflenwi i ferched a oedd ar gyfnod mamolaeth oedd hi wrth fynd o un lle i'r llall, Llanfair Caereinion, Llanfair-ym-muallt, Bro Gwaun, Bro Pedr ac yna Bro Hyddgen lle mae hi ers sawl blwyddyn ac wedi cael cyfrifoldebau ychwanegol yn ddiweddar. Ymarfer Corff oedd ei phwnc ond bydd yn newid cyn bo hir i Iechyd a Lles sy'n cynnwys llawer mwy na champfa a chae chwarae.

Nid neidio dros y clwydi a welir ar y teledu yw diddordeb Eleri. Galwa'r math o gystadleuaeth y mae hi'n ymddori ynddo yn 'Crufts i Geffylau'. Cynhelir y rhan gyntaf o'r gamp yn y cylch, dyma'r rhan ble disgwylir i'r ceffyl gyflawni pedwar math gwahanol o symudiad. Yn yr ail ran edrychir ar yr anifail i weld a yw'n cyfateb yn union i ofynion ei frid – dyma'r Crufts!

Cymaint yw enw Eleri yn y gamp erbyn heddiw fel bod pobl yn dod â'u ceffylau ati hi er mwyn iddi fynd â nhw yn eu lle i ennill mewn cystadlaethau. Wrth ddyrchafu enw'r enillydd codir gwerth y ceffyl pan ddaw yr adeg iddo genhedlu. Felly ar dir Cerrigcaranau mae sawl ceffyl – un o Lundain, Pentrefoelas, y Garnedd ac o Aberystwyth – iddi hi eu harddangos ac i ychwanegu gwerth atynt pan ddaw eu diwrnod mawr!



Eleri Jenkins (ar y chwith) gyda'r pencampwr ar ôl beirniadu am y tro cyntaf yn y Sioe Aeaf yn Llanelwedd fis Tachwedd 2022.

Yn sgil bod ar sawl panel bridio ceffylau a deall 'y pethe', cafodd Eleri wahoddiad i fod yn feirniad yn y Sioe Aeaf fis Tachwedd diwethaf. Hwnnw oedd y tro cyntaf iddi gael y fraint. Mae'n bosib y caiff gyfle rhyw ddydd i feirniadu yn y Sioe Frenhinol ac mewn sioeau eraill dros Glawdd Offa. Edrychwn ymlaen at glywed am ei dyfodol disglair ym myd y ceffyl. Yn Sioe Tal-y-bont eleni bydd cyfle i weld beirniad cenedlaethol yn barnu ceffylau. Gwych o beth.

Rhys Huws



# Cletwr

**Ysgrifennaf hyn ar fore heulog dros benwythnos y Pasg (Pasg Hapus hwyr i bawb!) ac mae'n benwythnos bendigedig. Mae'r paneli trydan ar do Cletwr yn gweithio'n galed, ac mae'r adeilad dan ei sang gydag ymwelwyr (diolch byth!). Mae'n fendigedig clywed cymaint o Gymraeg gan yr ymwelwyr hefyd, a chlywed y staff yn ymateb yn yr iaith. Mae gweithio yn y caffi yn gyfle gwych i'n gweithwyr iau, sydd wedi dysgu Cymraeg yn yr ysgol ond heb gael llawer o gyfle i'w siarad y tu allan i'r dosbarth.**

Peth cyntaf y mis 'ma, rydyn ni'n chwilio am bobl. Wrth gwrs, mae cyfle cyson i bawb ymuno â thîm Cletwr am gwpl o oriau'r wythnos (neu fis hyd yn oed) fel gwirfoddolwr. Yn bennaf, mae gwirfoddoli yn llawer o hwyl. Hefyd, mae'n gyfle i chi adael y tŷ a gweld pobl eraill a sgwrsio gyda nhw, sy'n gwneud byd o les i'ch iechyd meddwl. Cyfle i chi ddysgu sgiliau newydd efallai, neu roi sglein ar hen sgiliau anghofiedig? O ie, ac mae disgownt 10% ar ôl gorffen eich sifft.

Ond, rydyn ni'n chwilio am nifer o bobl sydd am weithio i Cletwr ac ennill arian! Mae arnom eisiau Rheolwr Arlwyo i fod yn gyfrifol am redeg y gegin a'r caffi. Swydd lawn amser yw hon. Hefyd, mae gwagle am gwpl o bobl i weithio fel cynorthwywyr yn y gegin. Manylion llawn am y swyddi ar ein gwefan Cletwr.com neu ffoniwch 832113 am sgwrs.

Mae arddangosfa gelf newydd yn y caffi tan 8fed o Fai. 'Hwyl gyda Llythrennau' gan Tanja Bolenz sy'n gweithio ym Mhennal. Bydd Tanja yn rhedeg gweithdy ar 19 Ebrill, ac fe fydd sesiwn 'Cwrdd â'r artist' ar y 22ain o 15:00-16:30. Manylion ar ein tudalen Facebook. Dewch i mewn unrhyw bryd am ddishgled ac i weld ei darluniau hardd. Mae'r arddangosfa o decstiliau Adire o Nigeria yn parhau hefyd.

Ar 21 Mai, byddwn yn rhedeg Gwŷl y Peillwyr. Enillodd Cletwr wobr am 'Caru Gwenyn' ac rydym am barhau gyda hyn. Bydd Stondin yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn a Caru Gwenyn yma, hefyd cwch gwenyn arddangos, arlliwio cardiau pryfed, argraffu crysiau-T a'r Grŵp Garddio o gwmpas i ateb cwestiynau. Dewch yn llu.

Nawr, ymlaen i'r digwyddiad mawr. Mawr? Na, enfawr! Ydych chi'n cofio beth oeddech chi'n ei wneud yn union ddeng mlynedd yn ôl? Wel, beth bynnag oedd e, doeddech chi ddim yn siopa yn Cletwr (neu 'siop Cynfelyn' fel yr oedd), achos doedd Cletwr ddim yn bodoli pryd hynny. Ym mis Mai 2013 yr agorodd. Felly bydd dathliad enfawr yn Cletwr fis nesaf. Dydd Sadwrn 13 Mai, bydd BBQ yn Cletwr, o 3:00 tan yn hwyr, gyda bwyd, diod, cerddoriaeth a hwyl! Croeso cynnes i bawb.

Ond mae hyn yn cynnig cyfle hefyd! Dros y blynyddoedd rydym wedi clywed nifer o fandiau lleol, ifainc yn canu yn Cletwr. Nawr, rydym am glywed mwy yn ystod y BBQ. Ydych chi'n rhan o fand talentog? Ydych chi'n nabod band ifanc? Cysylltwch â Rach drwy events@cletwr.com ac efallai mai dyma fydd eich cyfle mawr. Pwy a ŵyr, efallai y bydd cynhyrchwyr o Gwmni Sain yno!

Ac yn olaf y mis 'ma, diolch o galon i'r staff a'r gwirfoddolwyr sy'n gweithio mor galed a di-dor yn ystod yr adeg brysur 'ma.

Croeso mawr i bawb ddod i'n cefnogi.


James Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU

*Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111



Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaerniol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760


# Gêm fwrdd newydd gan gynllunydd lleol

**Mae gêm fwrdd wleidyddol newydd sbon o'r enw *Gêm-63* wedi ei chynllunio gan y cynllunydd graffig lleol, Ianto Hammonds, a fagwyd ym Mont-goch ac a fu'n ddisgybl yn Ysgol Gymunedol Tal-y-bont. Yr ysbrydoliaeth y tu ôl i'r gêm oedd protest gyntaf Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ar Bont Trefechan yn 1963. Bu Ianto'n cydweithio â chynllunydd arall, Dr Ted Parry sydd â chefndir mewn strategaeth wleidyddol. Mae'r gêm sy'n ffrwyth partneriaeth rhwng y ddau yn cynnig golwg newydd ar hanes gwleidyddol Cymru yn ail hanner yr ugeinfed ganrif.**




Er mwyn codi digon o arian i gynhyrchu'r gêm yn fasnachol, mae Ianto wedi creu safle ar lwyfan codi arian *Kickstarter* ar y We, a byddai'n werth ichi edrych ar eu gwefan Gêm63.cymru i ganfod mwy am y fenter. Mae gan Ianto hefyd fideo ar YouTube sydd i'w weld ar safle *Kickstarter* lle mae'n esbonio cefndir a natur y gêm: <https://kickstarter.com/projects/ianto/gem-63-game>

Y gobaith oedd codi £16,000 i ddechrau, ond roedd y swm a godwyd erbyn 3 Ebrill ychydig yn brin o'r targed. Dymunwn yn dda i Ianto yn ei nod o ennill digon o gefnogwyr i wireddu'r cynllun.



Ianto Hammonds


Cletwr

HYSBYSEB SWYDD:
RHEOLWR ARLWYO CLETWR

Mae cwmni Cletwr yn chwilio am reolwr arlwyo profiadol i arwain y caffi unigryw a chyffrous hon, sy'n eiddo i'r gymuned.

Am ragor o fanylion, a swydd ddisgrifiad llawn, anfonwch e-bost at cletwr@cletwr.com



Cletwr

HYSBYSEB SWYDD:
Cynorthwyydd Cegin

Mae cwmni Cletwr yn chwilio am Cynorthwyydd Cegin ar gyfer y caffi unigryw a chyffrous hon, sy'n eiddo i'r gymuned.

Am ragor o fanylion, a swydd ddisgrifiad llawn, anfonwch e-bost at cletwr@cletwr.com

# Chwaraeon a Hamdden

## Yr ymgyrch i gyrraedd Ewro 2024



Nathan Broadhead yn dathlu ar ôl sgorio ei gôl gyntaf dros ei wlad yn erbyn Croatia. Hawlfraint y llun: *Sky Sports*

**Ar ôl ymgyrch siomedig Cymru yng nghwpan y byd yn Qatar y llynedd, trodd sylw Rob Page a'i dîm at yr ymgyrch i gyrraedd yr Almaen ar gyfer Pencampwriaeth Ewro 2024. Tybed sut y byddai'r garfan ifanc yn dod i delerau gyda cholli chwaraewyr fel Gareth Bale, Chris Gunter a Joe Allen a oedd wedi ymddeol ar ôl cwpan y byd? Roedd Cymru hefyd heb chwaraewyr fel Rhys Norrington Davies, Ben Davies a Brennan Johnson drwy anafiadau. Felly, yn Split yng Nghroatia yr oedd y gêm gyntaf. Byddai rhai yn dadlau mai dyma gêm galetaf y grŵp yn erbyn y tîm a gyrhaeddodd rownd gyn-derfynol cwpan y byd. Tîm nad yw erioed wedi colli gêm gystadleuol Ewropeaidd gartref. Tipyn o record!**

Dechereuodd Croatia ar y droed flaen gyda'r tîm cartref yn sgorio ar ôl 28 munud gyda Andrej Kramaric yn gwyro'r bêl heibio i Danny Ward i gefn y rhwyd. Rheolodd Croatia weddill yr hanner cynta yn gyfforddus gyda Modric, Brozovic a Kovacic yn rheoli'r meddiant yng nghanol y cae.

Chwaraeodd Cymru lawer yn well yn yr ail hanner gyda Dan James yn methu cyfle euraid ar ôl i groesiad clyfar Harry Wilson ei ddarganfod yn y cwrt cosbi. Tynnodd Rob Page y capten Ramsey, Wilson a Dan James oddi ar y cae ar ôl 75 munud gan roi cyfle i Wes Burns, Tom Bradshaw a Nathan Broadhead ddangos eu gallu. Ac am foment i Broadhead wrth iddo sgorio'i gôl gynta ar ei gap cynta yn eiliadau olaf y gem ar ôl tafliad hir i mewn i'r bocs a gafodd ei benio gan Chris Mepham tuag at y postyn cefn. Dathlodd y 2,000 o gefnogwyr Cymru fel pe tasai hi'n gôl i ennill y gêm gyda'r pwynt gwerthfawr yn teimlo fel gwobr annisgwyl am frwydro'n gystadleuol yn erbyn un o dimau gorau Ewrop yn eu gardd gefn.

Ychydig o ddiwrnodau wedyn, Latfia oedd yr her. Her haws ar bapur, ond tîm na ddylsai Cymru eu cymryd yn ganiataol. Anerchodd Gareth Bale y dorf cyn y gêm gyda'r dorf o 32,000 yn lleisio eu gwerthawrogiad am ei wasanaeth dros ei wlad. Cafodd Cymru sawl cyfle da yn yr hanner cyntaf gyda Wilson, Moore ac Ampadu yn dod yn agos. Y cawr Kieffer Moore sgoriodd unig gôl Gymru cyn yr egwyl gyda pheniad arbennig heibio i golgeidwad Latfia. Gôl bwysig a roddodd sail ar gyfer ail hanner cyfforddus i'r dreigiau. Er i Latfia gael cwpwl o gyfleon, daliodd Cymru ar y blaen ac ennill y gêm a gorffen y rownd gyntaf o gemau gyda phedwar pwynt hollbwysig.

Armenia a Thwrci fydd yn wynebu Cymru nesa ym mis Mehefin, gyda thîm ifanc Rob Page yn gobeithio am berfformiadau tebyg i gario'r momentwm ymlaen ar eu hymgais i gyrraedd yr Almaen.

Eilir Huws

## COFIO RON



Prince Albert Rovers, 1962-63, gyda Ron Roberts y pedwerydd o'r chwith yn y rhes gefn.

**Roedd Ron Roberts, a fu farw ar drothwy ei 80 oed ddiwedd Mawrth, yn un o gymeriadau mwyaf adnabyddus yr ardal hon. Peintiwyd llawer i dŷ lleol ganddo ef a'i gefnder Eric dros y blynyddoedd – y ddau yn broffesiynol a siriol wrth eu gwaith. Mae'n briodol, serch hynny, i gynnwys y deyrnged hon i Ron ar dudalen Chwaraeon Papur Pawb gan ei fod â diddordeb oes mewn gemau o bob math.**

Er ei fod yn hoff iawn o daro'r bêl fach wen ar gwrs golff Borth ac Ynys-las a thaflu dartiau yn y tafarndai lleol, ei brif ddiddordeb oedd pêl-droed. Bu'n chwarae yn yr amddiffyn i sawl tîm lleol. Chwaraeodd i dîm Taliesin a lwyddodd i gyrraedd rownd derfynol Cwpan y Cynghrair yn 1961 er mai colli oedd ei hanes yn y ffeinal. Chwaraeodd Ron hefyd i dîm byrhoedlog o'r enw Prince Albert Rovers a enwyd ar ôl y dafarn yn Aberystwyth. Ymhlith aelodau o'r tîm hwn yr oedd sawl perthynas neu gyfaill agos lleol i Ron gan gynnwys Jimmy Roberts, Dai Owen Evans a Ken Jones. Ar ddiwedd tymor 1962-63 chwaraeodd Ron gyda'r Prince Albert yn ffeinal Cwpan y Cynghrair ond collwyd y gêm 5-0 yn erbyn Penparcau. Pan ailsefydlwyd clwb Tal-y-bont yn 1973 bu Ron yn chwarae am gyfnod gyda'r tîm.

Yn ddiweddarach, bu'n hyfforddi ugeiniau o fechgyn ifanc yr ardal pan oedd Cynghrair Mini Minors yn ei anterth ac fe aeth llawer o'r bechgyn hyn ymlaen i chwarae i Dal-y-bont a chlybiau lleol eraill. Byddai'n gwylio Tal-y-bont yn chwarae, yn arbennig pan oedd ei feibion Kevin a Des yn y tîm, a gwelwyd ef hefyd ar Goedlan y Parc yn cefnogi Aberystwyth. Byddai'n gwneud sylwadau ffraeth wrth wylio'r gemau a hynny gyda gwên chwareus a oedd yn nodweddiadol ohono.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â'r teulu yn eu colled.


Y LLEW GWYN
Tal-y-bont

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd
Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs / Dau gwrs)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245
garethwhitelion@outlook.com